

CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

cyngorybala@outlook.com

Cyngor Tref Y Bala

1/10/15

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Tref Y Bala ar y 1af o Hydref ac yn bresennol yr oedd Y Dirprwy Faer Edith Roberts, Dilys Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Ivora Jones, Alun Price, Carol Rowlands, Y Cynghorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Dirprwy Faer a derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Maer Eifion Roberts, Dorothei Evans, Islwyn Pritchard Jones, John C Williams. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda ac nid oedd datganiadau o fuddiant. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi'r 3ydd, 2015.

Materion y Clerc: Edrychwyd ar y cynlluniau a'r linciau ar gyfer yr Ysgol Gydol Oes.

Cytunwyd i wahodd y grŵp busnesau i drafod camerâu cylch cyfyng gyda'r Cynghorwyr a ymwelodd â'r Bermo (A Price, E Roberts, Dorothei Evans).

Gwnaethpwyd trefniadau ar gyfer Hyfforddiant Côt Ymddygiad ar 14/10/15 yng Nghanolfan Henblas.

Sbwriel ar Lan Llyn Tegid ac ar y Ro Wen- ni chafwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd na Pharc Cenedlaethol Eryri. Cytunodd y Clerc i ffonio Parc Cenedlaethol Eryri i drafod ymhellach.

Adroddwyd bod mater oedi a pherygl wrth i wartheg groesi'r ffordd fawr yn derbyn sylw Cyngor Cymuned.

Anfonwyd llythyr am oryrru ar Stryd y Fron a'r pryder am ddiogelwch i blant yn chwarae yn agos i'r ffordd.

Derbyniwyd ymateb gan y Grŵp Twristiaeth fod y gwaith o drwsio eu hysbysfwrdd ar y Stryd Fawr mewn llaw.

Goryrru Heol Tegid a fflag hysbysebu ar balmant: derbyniwyd ymateb y byddai'r cyflymder yn cael ei fesur.

Rheilfen wedi torri ar y Grîn – ni chafwyd ymateb hyd yn hyn.

Diogelu'r domen a'r bwrdd gwybodaeth: mae'r gwaith cynnal mewn llaw ac mae'r bwrdd gwybodaeth wedi ei dynnu. Cytunwyd i ofyn i saer lleol wneud ffrâm newydd i'r bwrdd.

Cafwyd cyfarfod gyda swyddogion Gwynedd parthed y golau Nadolig ar y coed a chytunwyd i ofyn i drydanwr lleol geisio cael ffynhonnell drydan at y coed yn ymyl cofeb Tom Ellis. Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan a'r Clerc i ymweld â busnesau'r Stryd Fawr i sôn am addurno ffenestri ac i gymryd archebion am goed Nadolig. Derbyniwyd cais gan y grŵp Siopau i'r golau cael eu cynnau ar 27/11/15

Adroddiad y Cynghorydd Sir

Trefnodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan gyfarfod i drafod parcio yn Y Bala ar 12/10/15 am 6.00pm (Y Maer i gadeirio).

Mae mater dynodi Llwybr y Sgotwyr yn llwybr cyhoeddus yn broses hir ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen. Mae'n ddiolchgar i bawb sydd wedi cyflwyno tystiolaeth iddo.

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Morgan mewn trafodaethau gydag Edwina Hart parthed cael stop bws wrth "ar ofyn" wrth ysgol Tŷ tan Domen. Nid yw hwn yn fater Cyngor Sir.

Materion Cynllunio

Cymeradwywyd ceisiadau Cynllunio i ailwampio strwythurol yn cynnwys gosod cladin allanol ym Mlaenddol Rhifau 18,21,24,34,35,38,48,51,54,75,86,49,53, 70, 76,66,67, 58, 1, 1A 2, 2A 3,4,5,6,7,8,9,10,77 78 79 80 81 82 83 84, 43 44 45 46 71 72

Materion Cyllid

Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

Rhodddwyd ystyriaeth i lythyr Swyddfa Archwilio Cymru am archwiliadau thematig, a rhodddwyd sylw i fonitro'r gwariant Ebrill- Medi yn erbyn y Gyllideb a osodwyd.

Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis, yn cynnwys Partneriaeth Penllyn, Capel Clay am blatiau addurnedig, Cyflog a PAYE.

Rhoddir ystyriaeth i fater ad-daliad costau gosod meinciau newydd yn y cyfarfod nesaf.

Gohebiaeth

Gwynedd: Derbyniwyd gwybodaeth am ail strwythuro'r Gwasanaeth Cofrestru. Ystyriwyd ymarferiad cysylltu cyhoeddus "Her Gwynedd" a llythyr David Coleman parthed hawliau tramwy.

Heddlu: derbyniwyd gwybodaeth am lefelau troseddu

Eraill: Derbyniwyd gwybodaeth am Rali GB. Derbyniwyd Bwydlen Nadolig y Plas Coch. Derbyniwyd Newyddlen Tŷ'r Eos. Nodwyd y gwahoddiad i gyfarfod blynyddol Parc Cenedlaethol Eryri Coed y Brenin 19/11/15.

Partneriaeth Penllyn: derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr.

Materion lleol y Cynghorwyr Tref: Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i edrych mewn i gyflwr gwrychoedd a'r pafin mewn sawl ardal o'r dre. Bydd y Clerc yn cysylltu gyda Pharc Cenedlaethol Eryri am ordyfiant gwrych wrth fynedfa'r anabl at y Ro Wen. Sylwyd fod peiriant twll yn y wal wedi cael ei osod wrth siop Spar er na ddaeth cais cynllunio am hwn i sylw'r Cyngor; bydd y Clerc yn gwneud ymholiadau pellach. Derbyniwyd adroddiad byr o gyfarfod Cyfeillion Neuadd Buddug.

A delegation of Councillors agreed to attend a meeting convened by Councillor Dilwyn Morgan to discuss parking in the town. Councillor Morgan is making progress with the process of designating Llwybr y Sgotwyr as a public footpath. He is also in correspondence with the Transport Minister, Edwina Hart, regarding siting a request bus stop near the old Neuadd y Cyfnod. Planning permission was recommended to upgrade properties in Blaenddol. Budget against actual spending in this financial year was monitored. Councillor Dilwyn Morgan agreed to discuss overhanging hedges and uneven pavements with Gwynedd officers. The Clerk agreed to make enquiries regarding the cashpoint at Spar as no planning papers have been received for the Council's consideration.